Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg | Press release

17 Rhagfyr 2010

Cyhoeddi penodi Cadeirydd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Athro Merfyn Jones wedi cael ei benodi'n Gadeirydd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol arfaethedig. Bydd yn ymgymryd â'r penodiad yn ffurfiol mewn pryd ar gyfer lansiad swyddogol y Coleg ar 1 Ebrill 2011.

Bydd y Coleg yn gweithio gyda a thrwy'r holl brifysgolion yng Nghymru i gynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n rhan bwysig o *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch.

Mae'r trefniadau ar gyfer y Coleg wedi hen gychwyn, a lansiwyd cynllun ysgoloriaethau i israddedigion eisoes. Y nod yw sicrhau bod y Coleg ar waith erbyn mis Ebrill 2011, yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2011.

Bu CCAUC yn darparu cymorth ariannol, strategol a gweinyddol, a oedd yn cynnwys sefydlu Bwrdd Gweithredu yn gynharach eleni.

Meddai'r Athro Jones: "Anrhydedd mawr yw ymgymryd â'r rôl allweddol hon yn esblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Ar ôl bod yn addysgu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg am bron ugain mlynedd, mae twf a chyfnerthiad pellach addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn fater sy'n agos iawn at fy nghalon ac edrychaf ymlaen yn hyderus at wneud cynnydd arwyddocaol a gwerthfawr yn y dyfodol."

Meddai Geraint Talfan Davies, Cadeirydd y Bwrdd Gweithredu: “Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddatblygiad newydd o bwys ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Pleser mawr i mi oedd cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o sefydlu’r Coleg, gyda chymorth aelodau’r Bwrdd Gweithredu. Rydw i wrth fy modd ein bod ni wedi gallu penodi rhywun mor uchel ei barch yng Nghymru yn gadeirydd cyntaf y Coleg ac rydw i’n dymuno pob llwyddiant i’r Athro Jones wrth iddo arwain y Coleg yn ystod y cyfnod pwysig sydd o’i flaen.”

Dywedodd yr Athro Noel Lloyd, Cadeirydd Addysg Uwch Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: “Mae’r penodiad hwn yn gam mawr ymlaen wrth i ni wireddu’r freuddwyd o sefydlu Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac rydw i’n sicr y bydd dealltwriaeth yr Athro Jones o ddiwylliant a threftadaeth Cymru a’i brofiad o weithio yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn ein helpu i sicrhau datblygiadau pwysig pellach mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd i ddod.”

Nodiadau

CCAUC – cysylltwch ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu,
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bydd y Coleg yn endid cyfreithiol newydd ac annibynnol gyda Chyfansoddiad. Ni fydd yn endid daearyddol ac ni fydd yn gorff dyfarnu graddau, ond bydd yn gweithio gyda a thrwy’r sefydliadau addysg uwch presennol. Bydd yn cael ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, gyda phrifysgolion Cymru a chyrff rhanddeiliadol eraill yn aelodau, a Bwrdd Cyfarwyddwyr o 13 o aelodau. Rhagwelir y bydd corffori’n cael ei gwblhau yn gynnar yn y flwyddyn newydd, fel y gall y Coleg ddechrau ar ei waith yn ffurfiol ym mis Ebrill 2011.

Roedd y broses ar gyfer penodi’r Cadeirydd cyntaf wedi’i seilio ar hysbysebu agored a chafodd yr ymgeiswyr eu cyfweld gan banel a oedd yn cynnwys cadeirydd y Bwrdd Gweithredu, Geraint Talfan Davies, cynrychiolwyr o CCAUC

ac AUC, ac aseswr allanol. Mae'r penodiad, sydd heb gyflog, am gyfnod o dair blynedd i ddechrau.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Roedd yr **Athro Merfyn Jones**, tan yn gynharach eleni, yn Is-Ganghellor Prifysgol Bangor. Bu'n darlithio ym mhrifysgolion Abertawe a Lerpwl cyn dod yn Athro Hanes Cymru ym Mangor. Mae ef wedi cyhoeddi'n eang ym maes hanes a gwleidyddiaeth Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg ac am lawer blwyddyn bu'n addysgu mewn Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu hefyd yn ddarlledwr rheolaidd ar deledu a radio Cymru. Bu'n gwasanaethu fel y Llywodraethwr BBC Cenedlaethol dros Gymru ac fel Cadeirydd Cyngor Darlledu Cymru. Arweiniodd adolygiad mawr o addysg uwch yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwblhawyd yn 2009 ac ar hyn o bryd mae'n Ymgynghorydd Arbenigol ar Addysg Uwch i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn dod yn Gadeirydd y Coleg yn ffurfiol ar ôl cwblhau ei waith dros Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae **Geraint Talfan Davies** yn Gadeirydd y Sefydliad Materion Cymreig ac Opera Cenedlaethol Cymru. Bu'n Rheolwr BBC Cymru o 1990 i 2000. Wedi ymddeol o'r BBC mae ef wedi cynrychioli Cymru ar yr Awdurdod Radio. Mae ef

hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol gyda Glas Cymru Cyf. (Dŵr Cymru), yn Ymddiriedolwr gyda'r Ymddiriedolaeth Safonau Cyfryngau, ac yn Gymrawd Anrhydeddus APCC a RIBA.

Addysg Uwch Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, ac mae'n rhan o Brifysgolion y DU/Universities UK.